Adran Gwaith a Phensiynau

# Ymateb i'r cynnig ar gyfer dyfodol Canolfan Gwaith Aberpennar

Ymateb i ymgynghoriad

Gorffennaf 2017

# Cynnwys


Cefndir .......... 2
Strategaeth ystâd yr Adran Gwaith a Phensiynau .......... 2
Crynodeb o'r ymatebion .......... 3
Themau'r ymatebion .......... 3
- Amser teithio .......... 3
- Costau teithio .......... 4
- Mynediad at wasanaethau .......... 5
- Sancsiynau .......... 6
- Bregusrwydd .......... 7
- Dadansoddiad cydraddoldeb .......... 7

Casgliadau a'r camau nesaf .......... 8
Atodiad A: holiadur .......... 9
Atodiad B: rhestr o ymatebwyr .......... 10

## Cefndir

Ar ddydd Iau 26 Ionawr 2017 cyhoeddodd yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) gynigion newydd i adleoli rhai o'i swyddfeydd Canolfan Byd Gwaith.

Mae gweithrediadau'r Ganolfan Byd Gwaith wedi newid dros y blynyddoedd diwethaf wrth i bobl wneud mwy o ddefnydd o wasanaethau ar-lein a thros y ffôn, ar y cyfan ond yn mynychu swyddfeydd ar gyfer apwyntiadau neu am gymorth wrth ymchwilio i swyddi gwag.

I adlewyrchu hyn, i gyflawni defnydd mwy effeithiol o adeiladau'r Adran Gwaith a Phensiynau ac i arbed arian cyhoeddus, cynigwyd i symud Canolfan Gwaith Aberpennar i Ganolfan Gwaith Aberdâr.

Mae canllawiau o gwmpas symud canolfannau gwaith, y cyfeirir atynt fel 'meini prawf gweinidogol', wedi cael eu defnyddio ers blynyddoedd lawer ar draws rhwydwaith gyfan y DU. Maent yn tarddu o'r awydd i safoni'r amgylchiadau wrth ystyried symud un canolfan gwaith i un arall.

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn credu ei bod yn rhesymol i ddisgwyl i hawlwyr deithio 3 milltir neu 20 munud ar drafnidiaeth gyhoeddus o'u canolfan waith presennol. Lle bwriedir symud neu gau swyddfa, ac mae'r symud i ganolfan gwaith newydd yn bellach na'r meini prawf hyn, mae gan yr Adran Gwaith a Phensiynau'r opsiwn i ymgynghori'n gyhoeddus am y cynnig hwn. Mae'r cynnig i symud i Ganolfan Gwaith Aberdâr y tu allan i'r meini prawf hyn:

- pellter: 4.5 milltir
- trafnidiaeth gyhoeddus: tua 26 munud
- car: 12 munud

Cyhoeddwyd y papur ymgynghoriad cyhoeddus, ***Cynnig ar ddyfodol Aberpennar***, ar 30 Ionawr 2017. Roedd yn gwahodd sylwadau gan bawb oedd â diddordeb yn nyfodol y ganolfan waith hon. Roedd hyn yn cynnwys cau adeiladau gyda'r gwasanaethau a ddarperir yn trosglwyddo i ganolfan gwaith arall o fewn Cwm Cynon.

## Strategaeth ystâd yr Adran Gwaith a Phensiynau

Ar 31 Mawrth 2018 bydd cytundeb yr Adran Gwaith a Phensiynau PFI PRIME (Private Resource Initiative for the Management of the Estate) gyda Telereal Trillium yn dod i ben. Mae'r cytundeb 20 mlynedd hwn yn cynnwys y rhan fwyaf o bortffolio eiddo presennol yr Adran Gwaith a Phensiynau o 966 o safleoedd. Mae hyn yn rhoi cyfle i'r Adran Gwaith a Phensiynau adolygu pa swyddfeydd sydd eu hangen yn y dyfodol, gan gymryd i ystyriaeth y defnydd cynyddol o wasanaethau ar-lein, y diwygiadau sy'n cael eu gweithredu dros y blynyddoedd nesaf, a'r galw disgwyliedig am wasanaethau.

Mae cyflwyno Credyd Cynhwysol a diwygiadau i'r Ganolfan Byd Gwaith wedi cynyddu nifer y rhyngweithiadau mae hawlwyr yn eu gwneud gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau ar-lein. Er enghraifft, mae wyth o bob deg o geisiadau am Lwfans Ceisio Gwaith yn awr yn cael eu gwneud drwy ddefnyddio sianeli digidol ac mae 99.6% o

ymgeiswyr ar gyfer gwasanaeth llawn Credyd Cynhwysol wedi cyflwyno eu cais ar-lein. Ar yr un pryd, mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi gweld lefelau uchaf erioed o gyflogaeth ar draws y DU, gyda'r cyfrif hawlwyr yn gostwng i tua 800,000.

O ganlyniad, mae 20% o'r adeiladau mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn ei feddiannu ar hyn o bryd ddim yn cael eu defnyddio bellach : hyd yn oed yn caniatáu ar gyfer defnydd wrth gefn ar gyfer unrhyw gynnydd tymor canolig. Mae hyn yn cynnig cyfle gwych i foderneiddio a rhesymoli: dros y 10 mlynedd nesaf, mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn disgwyl arbed £180m y flwyddyn ar gyfartaledd o ganlyniad i hyn.

Wrth ystyried sut i gyflawni hyn, blaenoriaeth yr Adran Gwaith a Phensiynau yw cynnig y gwasanaeth gorau posibl i hawlwyr tra'n cyflenwi bargen dda i'r trethdalwr.

## Crynodeb o'r ymatebion

Derbyniwyd wyth ymateb i'r cynigion yn yr ymgynghoriad.

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn ddiolchgar am yr holl gyfraniadau a wnaed mewn ymateb i'r ymgynghoriad.

Mae'r ymatebwyr wedi cael eu categoreiddio fel a ganlyn:

- 6 o ymatebion gan unigolion neu aelodau o'r cyhoedd
- 1 ymateb gan Aelod Cynulliad dros Gwm Cynon
- 1 gan PCS Cymru

## Themau'r ymatebion

Mae'r canlynol yn crynhoi'r ymatebion drwy grwpio'r materion i gyfres o themâu.

### Amser teithio

Mynegodd tri ymatebydd bryderon am y cynnydd mewn amser teithio i fynychu Canolfan Gwaith Aberdâr. Pryderon a nodwyd yn cynnwys anghyfleustra, amseroedd teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus ac anawsterau cynyddol ar gyfer grwpiau bregus: rhai ag anableddau a'r rhai sy'n gofalu am blant ifanc.

Sylwadau nodweddiadol:

*"Drwy deithio ymhellach i fynychu'r ganolfan waith yn Aberdâr, bydd yn rhaid i mi gymryd mwy o amser allan o'r dydd er mwyn caniatáu am y teithio ychwanegol, ac felly'n lleihau'r amser ar gyfer chwilio am waith."*

*"Rwy'n pryderu os bydd yn rhaid i gwsmeriaid bregus orfod teithio cryn dipyn yn bellach i Ganolfan Gwaith arall."*

*"…bydd yn cymryd o leiaf 50 munud, ac yna cerdded 10 - 15 munud gan bod yr orsaf bws/trên wedi ei leoli ym mhen arall y dref i'r Ganolfan Gwaith."*

**Ymateb**

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn credu ei bod yn rhesymol disgwyl i hawlwyr i deithio i swyddfa o fewn 3 milltir, neu 20 munud ar drafnidiaeth gyhoeddus o'u canolfan waith presennol. Drwy ymgynghori, mae dalgylch pob canolfan gwaith wedi cael ei ymchwilio iddo ac mae'r amseroedd teithio penodol a llwybrau bysiau wedi cael eu llunio.

Mae'n bosibl gwneud y daith o Aberpennar i Aberdâr ar drên neu fws. Mae'r orsaf drenau a'r orsaf fysiau ill dau tua 10 munud o gerdded o Ganolfan Gwaith Aberdâr. Fodd bynnag, mae bysiau ar gael o'r naill orsaf i'r ganolfan waith, gan gynnwys bysiau â lloriau lefel isel. Mae Canolfan Gwaith Aberdâr ar amryw o lwybrau bws ac mae safle bws y tu allan i Lyfrgell Aberdâr, sydd yn agos iawn i'r ganolfan gwaith.

Mae anogwyr gwaith yr Adran Gwaith a Phensiynau yn personoli'r cymorth a ddarperir ar gyfer pob hawlydd yn seiliedig ar angen ac amgylchiadau unigol. Pan fydd gan hawlwyr gyfyngiadau oherwydd cyflwr iechyd neu anabledd neu oherwydd cyfrifoldebau gofalu, yna mae hyn yn cael ei gymryd i ystyriaeth wrth drefnu unrhyw fynychu. Mae gan yr Adran Gwaith a Phensiynau nifer o wahanol ffyrdd o ryngweithio â hawlwyr bregus, gan gynnwys:

- wyneb yn wyneb
- drwy e-bost
- dros y ffôn
- drwy'r post
- drwy SMS

Fodd bynnag, mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn cydnabod y bydd rhai hawlwyr yn gwneud taith anghyfarwydd: Bydd anogwyr gwaith yn cefnogi hawlwyr dros y cyfnod pontio hyd nes eu bod yn dod yn gyfarwydd â threfniadau teithio newydd.

## Costau teithio

Mynegodd pum ymatebydd bryder am y cynnydd posibl mewn costau teithio a'r effaith y byddai hyn yn ei gael ar incwm gwario ar gyfer bwyd a hanfodion eraill.

Mae wedi cael ei awgrymu y bydd rhai hawlwyr yn wynebu taith fwy costus i gyrraedd eu canolfan gwaith newydd a bydd llawer bellach ddim gyda'r dewis i gerdded a thrwy hynny yn wynebu costau ychwanegol.

Sylwadau nodweddiadol:

*"…mae pob ceiniog yn cyfrif ac ni fydd y bobl sy'n gorfod teithio ar y bws i'w canolfan newydd yn cael unrhyw arian yn ôl ar gyfer hynny ... mae angen yr arian ar gyfer pethau pwysicach."*

*"Byddwn ddim yn unig yn wynebu costau cludiant mewn petrol neu drafnidiaeth gyhoeddus, ond hefyd taliadau parcio canol y dref oherwydd ei leoliad (ar hyn o bryd yn 75c yr awr)."*

*"Y gost ychwanegol o deithio o Aberpennar i Aberdâr yw £3.10 - £3.30 fydd yn cael effaith andwyol ar incwm unigolyn"*

**Ymateb**

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn cydnabod y gall y cynigion a gynhwyswyd yn yr ymgynghoriad gynyddu costau teithio ar gyfer rhai hawlwyr pan mae angen iddynt fynychu canolfan gwaith. Bydd hyn yn arbennig o wir ar gyfer y rhai sydd ar hyn o bryd yn byw o fewn cyrraedd hawdd i'w canolfan gwaith.

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn gallu ad-dalu costau teithio i hawlwyr a chwsmeriaid, wrth ystyried eu hamgylchiadau penodol, pan ofynnir iddynt fynychu'r Ganolfan Gwaith tu hwnt i'w gofyniad presenoldeb arferol. Nid yw hyn yn newydd ac yn wir am unrhyw hawlydd mae angen iddynt fynychu canolfan gwaith ledled y DU.

Mae cymorth i dalu costau teithio ar gael i hawlwyr cymwys trwy'r Cerdyn Disgownt Teithio'r Ganolfan Byd Gwaith. Gall hawlwyr hefyd wneud cais i fynychu canolfan gwaith sy'n agosach at eu cartref, os oes un. Bydd anogwyr gwaith yn helpu i gyfeirio hawlwyr mewn amgylchiadau o'r fath.

## Mynediad at wasanaethau

Mynegodd tri ymatebydd bryder ynghylch effaith andwyol y cynnig ar y gymuned leol. Enghreifftiau a roddwyd oedd cael gwared ar fynediad i wasanaethau, cymorth i hawlwyr budd-daliadau bregus a mynediad i bobl anabl.

Sylwadau nodweddiadol:

*"…Mae'r swyddfa yn Aberdâr yn rhy fawr heb sôn nad yw'n ystyriol o bobl anabl o gwbl fel y profais fy hun ychydig ddiwrnodau yn ôl."*

*"Mae'r llyfrgell yn Aberpennar ar gau brynhawn dydd Mercher a dydd Iau ac ar hyn o bryd mae'r ganolfan waith yn darparu gwasanaeth pwysig ar gyfer y rhai sydd wedi'u heithrio'n ddigidol. ... .Rhain yw'r unig gyfleusterau ar y dyddiau y mae'r llyfrgell ar gau."*

*"O ran yr arbedion y gellir eu gwneud trwy gau'r adeilad hwn, byddwn yn gofyn bod y rhain yn cael eu hedrych arnynt, mewn ardaloedd fel Aberpennar yn aml iawn mae'r costau rhedeg yn isel o'i gymharu ag ardaloedd eraill. Mae gwerth yr adnodd hwn sy'n cael ei ddarparu i'r bobl leol yn cael effaith sylweddol ar eu bywydau ac yn fy marn i yn fwy na'r swm bach posibl o arbedion ariannol a all ddigwydd."*

**Ymateb**

Nid yw'r Adran Gwaith a Phensiynau yn lleihau ei gwasanaethau ac mae wedi ymrwymo i gadw rhwydwaith o ganolfannau gwaith hygyrch. Mae'r cynnig hwn yn sicrhau y gall yr Adran Gwaith a Phensiynau ymateb yn well i alw gan gwsmeriaid, cefnogi'r symudiad tuag at Gredyd Cynhwysol a chynyddu hyblygrwydd i ddarparu gwasanaethau ar draws y diwrnod gwaith llawn.

Y nod cyffredinol yw darparu gwasanaeth gwell yn Aberdâr: bydd offer TG yn cael ei symud a'i ailgartrefu yno. Bydd hawlwyr yn parhau i gael eu hannog i ddod â'u dyfeisiau electronig eu hunain i mewn i ganolfannau gwaith i wneud defnydd da o Wi-Fi am ddim yr Adran Gwaith a Phensiynau i'w helpu i reoli eu cais ar-lein ac i gefnogi eu gweithgareddau chwilio am waith. Bydd staff penodol ar gael i gefnogi hawlwyr trwy ddarparu gwasanaethau a chymorth ychwanegol yn yr ystafelloedd digidol.
Mae Canolfan Gwaith Aberdâr ar ddau lawr, fodd bynnag, mae'r ffordd tuag at y ganolfan gwaith yn fwy cyfeillgar i anabledd na Aberpennar. Bydd anogwyr gwaith yn symud i'r llawr gwaelod os nad yw cwsmeriaid yn gallu cyrraedd y llawr cyntaf. Bydd yr adnoddau digidol ychwanegol (o Aberpennar) yn cael eu cartrefu ar y llawr gwaelod i gynyddu hygyrchedd. Yn ogystal, fel swyddfa mwy o faint byddant yn gallu darparu oriau agor llawn (9am-5pm o ddydd Llun i ddydd Gwener - heblaw am un bore’r wythnos ble y byddant yn agor am 10am). Nid yw'r Adran Gwaith a Phensiynau yn gallu darparu gwasanaeth tebyg yn Aberpennar o ystyried y cyfyngiadau staffio mewn swyddfa lai.

## Sancsiynau

Mynegodd dau ymatebydd bryder y byddai nifer y sancsiynau a roddwyd yn cynyddu os byddai'r cau arfaethedig o'r ganolfan waith yn mynd yn ei flaen.

Amlygodd rhai o'r ymatebion y gallai teithiau hirach ar gludiant cyhoeddus arwain at gynnydd mewn cyrraedd yn hwyr neu fethu â mynychu apwyntiadau. Mynegwyd pryderon ynghylch yr effaith ar hawlwyr bregus a dibynadwyedd cludiant cyhoeddus.

Sylwadau nodweddiadol:

*“…gall yr amser ychwanegol orgyffwrdd cyfnod mynd i nôl plant i'r ysgol, sydd yn ei dro yn cyfyngu ar fy amser ar gyfer cyfweliadau chwiliad gwaith. Gall hyn arwain i mi gael fy ngweld i beidio bod yn gydweithredol a allai wedyn yn ei dro arwain at sancsiynau a fyddai'n bell o'r gwir.”*

*“…bydd etholwyr bregus yn syml ddim yn gallu wynebu'r posibilrwydd o deithio i Aberdâr.....Gallai hyn hyd yn oed achosi iddynt beidio a throi i fyny gan arwain at sancsiynau iddynt a cholli budd-dal.”*

### Ymateb

Mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol wedi amcangyfrif bod miliwn o geiswyr gwaith wedi methu apwyntiadau rhwng mis Gorffennaf 2015 a mis Rhagfyr 2015 o'i gymharu â dim ond 34,000 o atgyfeiriadau sancsiwn. Mae'r gostyngiad hwn yn benodol oherwydd y gwaith parhaus i sicrhau bod hawlwyr yn gwybod ac yn deall disgwyliadau eu hanogwyr gwaith. Mae'r nifer o benderfyniadau sancsiwn am fethu â mynychu, neu fethiant i gymryd rhan mewn cyfweliad anogwr gwaith heb reswm da, wedi gostwng.

Bydd pryderon am gludiant cyhoeddus yn parhau i gael eu hystyried ar sail unigol. Nid yw'r Adran Gwaith a Phensiynau yn disgwyl i'r cynnig hwn arwain at sancsiynau ychwanegol, o ganlyniad uniongyrchol i effaith teithiau y tu hwnt i reolaeth hawlydd.

## Bregusrwydd

Mynegodd pedwar ymatebydd bryder am effeithiau y daith hirach i Aberdâr, ar hawlwyr bregus neu sydd ag anabledd.

Sylwadau nodweddiadol:

*"Mae fy mab yn defnyddio'r swyddfa a dyma'r unig le mae'n mynd bob 2 wythnos. Mae ganddo Asperger difrifol ac mae angen iddo gadw at yr un drefn ag y mae wedi'i wneud bob amser. Ni fydd yn gallu ymdopi, ac o ganlyniad i hyn…"*

*"Mae llawer o'r cyhoedd sy'n mynychu'r ganolfan gwaith hwn yn fregus ... Mae llawer o'r hawlwyr hyn yn dioddef o bryder ac iselder…"*

*"Rwy'n bryderus y bydd yr etholwyr mwyaf bregus yn methu wynebu'r posibilrwydd o deithio i Aberdâr."*

### Ymateb

Dylid nodi y gofynnir i hawlwyr, gan gynnwys y rhai sydd yn fregus, ond i fodloni gofynion rhesymol. Mae'r rhain yn ystyried eu hamgylchiadau unigol, gallu (gan gynnwys cyflyrau iechyd), anabledd a chyfrifoldebau gofalu.

Mae anogwyr gwaith yr Adran Gwaith a Phensiynau yn personoli'r cymorth a ddarperir ar gyfer pob hawlydd yn seiliedig ar angen ac amgylchiadau unigol. Pan fydd gan hawlwyr gyfyngiadau oherwydd cyflwr iechyd neu anabledd neu oherwydd cyfrifoldebau gofalu, yna mae hyn yn cael ei gymryd i ystyriaeth wrth drefnu unrhyw fynychu. Mae gan yr Adran Gwaith a Phensiynau nifer o wahanol ffyrdd o ryngweithio â hawlwyr bregus, gan gynnwys:

- wyneb yn wyneb
- drwy e-bost
- dros y ffôn
- drwy'r post
- drwy SMS

Fodd bynnag, mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn cydnabod y bydd rhai hawlwyr yn gwneud taith anghyfarwydd: Bydd anogwyr gwaith yn cefnogi hawlwyr dros y cyfnod pontio hyd nes eu bod yn dod yn gyfarwydd â threfniadau teithio newydd.

## Dadansoddiad cydraddoldeb

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi bod yn ymwybodol o'i ddyletswyddau o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac wedi cynnal ymgynghoriad ar lefel canolfan gwaith leol i hysbysu'r ddealltwriaeth o effaith y cynnig. Mae ystyriaeth ofalus wedi'i roi i'r effaith ehangach ar y cymunedau lleol. Bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau yn cynnal gwasanaethau i hawlwyr, boed yn eu canolfan gwaith presennol lle gwneir penderfyniad i gadw'r swyddfa honno neu, lle y bydd eu canolfan gwaith presennol yn cau, mewn safle arall.

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn cydnabod bod y cynigion hyn yn cynrychioli newid mawr a all gael mwy o effaith ar rai grwpiau â nodweddion gwarchodedig nag eraill, fel y dangosir gan yr ymatebion i'r ymgynghoriad, ac mae ystyriaeth wedi'i roi i sut y gall unrhyw effeithiau o'r fath gael eu lliniaru.

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi rhoi sylw priodol i effaith y cynigion drwy gydol datblygu'r rhaglen, fel y dangosir gan y dadansoddiad cydraddoldeb ar lefel uchel a gynhaliwyd cyn i'r cynnig gael ei gwblhau a drwy'r ymgynghoriad ar Dadansoddi Cydraddoldeb llawn sydd newydd gael ei ymgymryd.

## Allgymorth

Mynegodd un ymatebydd bryder am y posibilrwydd o golli gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd gan sefydliadau trydydd parti yng Nghanolfan Gwaith Aberpennar.

*"Mae canolfan gwaith Aberpennar yn cael ei ddefnyddio gan ystod o gyrff 3ydd parti ac allgymorth i ddarparu gwasanaethau pwysig i'r cyhoedd i helpu i oresgyn y rhwystrau i ddod o hyd i waith."*

### Ymateb

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn ymrwymedig i gadw rhwydwaith o ganolfannau gwaith a pharhau i wasanaethu pobl ym mhob rhan o'r DU i sicrhau y gallant barhau i gael mynediad at wasanaethau wedi'u teilwra y maent eu hangen. Pan fydd canolfan gwaith llawn amser yn cau, bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau yn rhoi gwasanaeth 'allgymorth' yn ei le o fewn y gymuned leol.

Mae allgymorth yn wasanaeth rheng flaen hanfodol i hawlwyr. Mae sefydliadau yn cynnig mynediad at eu cyfleusterau fel rhan o'r gweithgareddau partneriaeth parhaus â'r Adran Gwaith a Phensiynau. Mae hyn yn caniatáu i anogwyr gwaith a sefydliadau partner i weithio gyda'i gilydd ar y cyd i gefnogi anghenion hawlwyr. Ar hyn o bryd mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn gweithio gyda'n sefydliadau partner yn yr ardal leol er mwyn datblygu gwasanaeth allgymorth.

# Casgliadau a'r camau nesaf

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi ystyried y pwyntiau a godwyd gan bob un o'r bobl a sefydliadau sydd wedi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae'r pwyntiau a godwyd gan ymatebwyr yn amlygu'r anawsterau a godwyd wrth wneud y newidiadau hyn, ond mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn gorfod cael cydbwysedd rhwng yr angen i ddarparu gwasanaethau ynghyd â'r gyllideb sydd ar gael i ddarparu'r gwasanaethau hynny.

Ar ôl ystyried yr ymatebion yn ofalus, barn yr Adran Gwaith a Phensiynau yw nad yw'r rhain yn darparu sail i ddiwygio neu newid y cynnig i gau Canolfan Gwaith Aberpennar a symud y gwasanaethau i Ganolfan Gwaith Aberdâr.

Argymhelliad yr adroddiad hon yw i fwrw ymlaen gyda'r cynnig i gau Canolfan Gwaith Aberpennar a throsglwyddo gwasanaethau i Ganolfan Gwaith Aberdâr.

## Atodiad A: holiadur

Gwahoddodd y papur ymgynghorol ymatebion i'r cwestiynau canlynol:

**Cwestiwn 1**: Ydych chi’n cytuno gyda’r cynnig? Pa sylwadau cyffredinol yr hoffech eu gwneud ar y cynnig?

**Cwestiwn 2**: A fydd y cynnig i gau Canolfan Gwaith Aberpennar yn cael effaith uniongyrchol arno chi? Os bydd, dylech ddarparu manylion pellach.

**Cwestiwn 3**: Os ydych yn defnyddio gwasanaethau'r Ganolfan Byd Gwaith ar hyn o bryd yn y Canolfannau Gwaith hyn, pa effeithiau fydd ar yr amser a'r gost a gymerir i deithio i'ch Canolfan Gwaith newydd?

**Cwestiwn 4**: A oes unrhyw effeithiau penodol eraill yn deillio o'r cynnig hwn y dylai'r Adran Gwaith a Phensiynau gymryd i ystyriaeth wrth wneud penderfyniad?

**Cwestiwn 5**: A oes gwasanaethau amgen y gellid eu darparu a fyddai o fudd i rai hawlwyr? Er enghraifft, gallai hyn fod yn aelod o staff y Ganolfan Byd Gwaith wedi eu lleoli mewn lleoliad cymunedol i ddarparu cymorth gyda chwilio am waith. Dylech roi eglurhad am eich ateb, gydag enghreifftiau a thystiolaeth o'r galw am y gwasanaeth ble bo hynny'n bosibl.

**Cwestiwn 6**: Dylech ddarparu unrhyw sylwadau ychwanegol sydd gennych.

## Atodiad B: rhestr o ymatebwyr

Yn ogystal ag aelodau o'r cyhoedd a hawlwyr a ymatebodd i'r ymgynghoriad, darparodd yr unigolion a'r sefydliadau a enwir isod ymateb:

- Vikki Howells Aelod Cynulliad Cymru dros Gwm Cynon
- PCS Cymru